**Rhif: WG52513**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Ymateb y Llywodraeth

# Trwyddedu Sefydliadau Lles, Gweithgareddau ac Arddangosfeydd Anifeiliaid

Ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf i'r ymgynghoriad ar Farcio Sefydliadau Lles Anifeiliaid, Gweithgareddau Anifeiliaid a Digwyddiadau - Datblygu model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid

Mehefin 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 978-1-80633-051-5 ISBN Digidol

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: llesanifeiliaidcymru@llyw.cymru

### Copïau Ychwanegol

Bydd yr ymateb hwn gan y Llywodraeth a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghorol yn cael eu cyhoeddi'n electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Trwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid | LLYW.CYMRU

# Cynnwys


Cyflwyniad ..... 4
Cwestiwn 1 - camau nesaf ..... 4
Cwestiwn 2 - camau nesaf ..... 5
Cwestiwn 3 - camau nesaf ..... 5
Cwestiwn 4 - camau nesaf ..... 6
Gorfodi ..... 6

## Ein hymateb i'r ymgynghoriad ar drwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid, a'n camau nesaf

Rydym yn bwriadu rhoi dull graddol ar waith ar gyfer cyflwyno model cenedlaethol yn ymwneud â rheoleiddio lles anifeiliaid.

Mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid, asiantaethau gweithredol, a'r trydydd sector, byddwn yn canolbwyntio ar feysydd lle gall rheoleiddio sicrhau'r manteision mwyaf, drwy ystyried y dystiolaeth, y safbwyntiau a'r wybodaeth a gyflwynwyd, a'r problemau penodol a fydd yn codi o wahanol fathau o weithgarwch, y sefydliad neu'r arddangosfa o dan sylw.

Rydym yn cydnabod bod nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhoi manylion helaeth, gan ddangos manteision canfyddedig gofynion rheoleiddiol penodol, megis cymarebau staff i anifeiliaid ac amlder arolygu. Bydd y rhain, ochr yn ochr â'r holl ymatebion eraill, yn cael eu cadw ar goedd wrth i ni ddatblygu cynigion ymhellach. Bydd cynigion newydd yn destun asesiadau effaith, ac efallai y byddwn yn ymgynghori ymhellach ynglŷn â materion penodol.

Mae ein camau nesaf yn erbyn pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad wedi'u nodi isod.

**Cwestiwn 1 – Sefydliadau Lles Anifeiliaid (yn cynnwys Llochesi, Canolfannau Adsefydlu a Chanolfannau Ailgartrefu)**

- **Y Cam Nesaf:** Byddwn yn datblygu cynigion i ystyried rheoleiddio ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid, i gynnwys cynllun trwyddedu posibl.

Ar hyn o bryd, ni chaiff sefydliadau lles anifeiliaid eu rheoleiddio yng Nghymru, ac er bod Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn cynnig peth gwarchodaeth gyffredinol, nid yw'n swyddogaeth statudol. Yn niffyg trefniadau rheoleiddio digonol, cyson a phenodol, gallu cyfyngedig yn aml sydd gan awdurdodau lleol (fel cyrff gorfodi) i ymyrryd ble y bo angen.

Er bod Cod ar yr arferion gorau ar gyfer Sefydliadau Lles Anifeiliaid ar gael, mae achosion o esgeulustod difrifol, camreoli a phwysau llethol yn dal i ddigwydd. Byddwn yn dechrau gwaith ar ddatblygu model cenedlaethol i gynnwys cynigion ar gyfer rheoleiddio sefydliadau lles anifeiliaid, yn cynnwys canolfannau achub, llochesi, canolfannau adsefydlu a chanolfannau ailgartrefu. Hefyd, rhoddir ystyriaeth i weithgareddau megis maethu ac anifeiliaid a gaiff eu mewnforio o dramor fel y gellir eu hachub neu eu hailgartrefu.

Bydd unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau'n cael eu datblygu gyda chymorth, profiad ac arbenigedd rhanddeiliaid, cyrff gweithredol a'r trydydd sector. Yn y ffordd hon, ein gobaith yw llunio trefniadau rheoleiddio a fydd yn addas i'r diben, yn gymesur, yn glir ac yn gyson. Bydd rhyw fath o ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar fersiwn derfynol unrhyw ddeddfwriaeth a'r canllawiau, cyn iddynt gael eu rhoi ar waith, yn ogystal ag asesiadau effaith.

**Cwestiwn 2 – Gweithgareddau Anifeiliaid (yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, twtio anifeiliaid, gofal dydd i gŵn a lletya cŵn, hyfforddwyr ac ymddygiadwyr anifeiliaid, gwasanaethau cwrdd rhwng pobl ac anifeiliaid, cerdded cŵn, stablau ac ati)**

- **Y Cam Nesaf**: Byddwn yn ystyried yn llawn yr arfer o dwtio anifeiliaid anwes fel ail gam y model cenedlaethol.

Mae twtio anifeiliaid anwes yn weithgaredd medrus lle mae'n ofynnol cael profiad a gwybodaeth arbenigol er mwyn gwneud y gwaith yn ddiogel. Mae'n weithgaredd cyffredin ac mae'n dal i gynyddu ledled Cymru, ond ni chaiff ei reoleiddio. Mae nifer o gymwysterau i'w cael, ond nid yw'r rhain wedi'u safoni. Mae nifer y rhai sy'n ymgymryd â hyfforddiant yn anghyson ac mae gweithrediadau twtio anifeiliaid anwes yn amrywio'n fawr, o wasanaethau symudol ar raddfa fach i fasnachfreintiau mawr. Yn ystod eu hoes, bydd nifer o anifeiliaid yn ymweld â mannau sy'n cynnig gwasanaethau twtio anifeiliaid anwes yn amlach na mannau sy'n cynnig gofal o fath arall. Wrth ddiwallu anghenion twtio eu hanifeiliaid anwes, mae perchnogion angen sicrwydd y bydd yr anifail yn cael ei ddychwelyd yn ddiogel, y bydd yn cael ei drin gyda gofal ac na fydd yn dioddef straen gormodol.

Cydnabyddwn fod yna ddadleuon dilys dros reoleiddio gweithgareddau eraill o dan fodel cenedlaethol. Byddwn yn eu hystyried, yn enwedig pan geir cefnogaeth gref a thystiolaeth glir ar gyfer camau o'r model cenedlaethol yn y dyfodol.

Hefyd, cafwyd dadleuon nad trwyddedu fyddai'r dull gweithredu priodol mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, mewn perthynas â cherdded cŵn, parhau â'r sefyllfa sydd ohoni neu gyflwyno dull cofrestru cyffyrddiad ysgafn oedd y dewis a gâi ei ffafrio gan fwyafrif yr ymatebwyr ar y gweithgaredd hwn; ac mewn perthynas ag ioga cŵn bach a chaffis cathod, cyflwyno gwaharddiad oedd y consensws ymhlith ymatebwyr ar y gweithgareddau hyn. Yn achos gweithgareddau eraill, fel stablau ac ati, pennwyd bod angen eu monitro a chasglu tystiolaeth yn eu cylch.

**Cwestiwn 3 – Arddangosfeydd Anifeiliaid (yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, arddangosfeydd teithiol a sefydlog adar ysglyfaethus, anifeiliaid a ddefnyddir mewn lleoliadau addysg, iechyd neu hamdden, ceirw mewn digwyddiadau Nadolig)**

- **Y Cam Nesaf**: Cadw golwg ar y sefyllfa.

Roedd llai o drafod ar y maes hwn, gydag ystod eang o safbwyntiau wedi'u mynegi. Roedd hyn yn golygu tystiolaeth llai cydlynnol a llawer mwy o wahaniaeth barn, gan gynnwys rhai galwadau am waharddiad(au) wedi ei dargedu (ar gyfer arddangosfeydd penodol) neu uniongyrchol. Er bod nifer o randdeiliaid yn dal i gefnogi'r syniad y dylid trwyddedu neu gryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol, ar gyfer arddangosfeydd anifeiliaid, roedd rhai hefyd yn cydnabod bod mwy o flaenoriaeth yn perthyn i feysydd eraill yn yr ymgynghoriad. Nid ydym yn anwybyddu galwadau am ddiwygio neu wahardd rheoleiddiol. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr ymgynghoriad,

rhagwelir y bydd y model cenedlaethol yn cael ei weithredu fesul cam, ac mae wedi bod yn angenrheidiol mireinio blaenoriaethau ar gyfer cam un.

**Cwestiwn 4 – Trwyddedu perchnogion a/neu geidwaid neu hyfforddwyr cŵn rasio (yn cynnwys milgwn) a Chwestiwn 5 – Ystyried gwaharddiad graddol ar rasio milgwn yn y dyfodol.**

- **Y Cam Nesaf**: Fel y cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies, ar 18 Chwefror 2025, rydym yn awr yn symud at wahardd rasio milgwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

Rydym yn sefydlu Grŵp Gweithredu a fydd yn darparu gwybodaeth a chyngor ymarferol i'r Llywodraeth. Bydd yn cynrychioli rhanddeiliaid amrywiol ac yn darparu canllawiau i sicrhau lles cŵn rasio trwy gydol y broses, gan hefyd gefnogi ymdrechion i liniaru effeithiau ar y gymuned leol a'r economi.

Fel rhan o'r datganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni ar 29 Ebrill 2025 y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth yn ystod yr hydref, i gyflawni'r ymrwymiad i wahardd rasio milgwn yng Nghymru.

**Thema Gyffredinol – Gorfodi (yn cynnwys adnoddau digonol, cyllid a dull cyson)**

Ar draws pob un o'r cwestiynau, soniodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr am bwysigrwydd dulliau gorfodi effeithiol, gyda'r safbwyntiau'n cael eu hadlewyrchu gan y cyhoedd, cynrychiolwyr y trydydd sector, perchnogion busnesau a chyrff gweithredol fel ei gilydd. Cafwyd consensws clir bod gorfodi yn elfen allweddol os ydym am gyflwyno a rheoli unrhyw drefniant rheoleiddio yn llwyddiannus. Gofynnodd yr ymatebwyr am gael adnoddau digonol, cyllid a dull cyson, o ran gofynion rheoleiddio'r presennol a'r dyfodol.

Rydym yn cydnabod y rôl hanfodol y bydd gorfodi yn ei chwarae yn llwyddiant y model cenedlaethol ac rydym wedi ystyried y pryderon a godwyd. Rydym wedi dyfarnu estyniad cyllido sylweddol i'n prosiect gorfodi awdurdodau lleol, Trwyddedu Anifeiliaid Cymru, ar gyfer 2025/2026.

Bydd hyn yn galluogi eu hymdrechion trawsnewidiol sydd wedi ennill gwobrau i barhau, gan ysgogi cynnydd o ran iechyd a lles anifeiliaid a gwella dulliau gorfodi ledled Cymru yn sylweddol.